WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2009-10

Medi 2010

**Awdur: Ceri Stradling** **Cyf: 476A2010**

# Archwiliad o'r Datganiadau Cyfrifyddu – Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio

# **Cyngor Gwynedd**

Fy mwriad i, fel Archwilydd Penodedig, yw rhoi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon y Cyngor a'r nodiadau cysylltiedig.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Aed i'r afael â risgiau cynllunio'r archwiliad mewn modd boddhaol | 6 |
| Nid yw datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol | 7 |
| Cafwyd un camddatganiad nas cywirwyd | 8 |
| Gellid gwella arferion cyfrifyddu'r Cyngor o ran datgeliadau pensiwn a'r ffordd yr ymdrinnir ag asedau sefydlog | 9 |
| **Atodiadau** | |
| Llythyr Cynrychiolaeth | 11 |
| Crynodeb o'r cywiriadau i'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig drafft y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt | 16 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'r staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

# Crynodeb

1. Mae Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig sy'n dangos darlun cywir a theg o'i sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a'i wariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'n ofynnol i mi roi fy marn o ran p'un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun cywir a theg.
2. Cyflwynodd y Cyngor Ddatganiad o Gyfrifon i mi ym mis Mehefin 2010 ac rwyf bellach wedi cwblhau'r archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i raddau helaeth. Rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n codi, y credaf y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo cyfrifon y Cyngor. Rwyf eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid.
3. Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg, ond, yn hytrach, fabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwy'n ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig – hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
4. Y symiau meintiol a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor yw £3.497 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio, a £5.517 miliwn ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol.
5. Fel sy'n ofynnol o dan safonau archwilio, cyflwynaf adroddiad i chi ar unrhyw faterion y Cyngor a nodwyd mewn perthynas ag:
   - arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol;
   - gwendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol;
   - materion o ddiddordeb llywodraethu sylweddol; ac
   - unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n codi o'm harchwiliad.
6. Hefyd nodaf yn yr adroddiad manwl unrhyw gamddatganiadau a nodwyd o fewn cyfrifon y Cyngor nad ydynt wedi'u cywiro o hyd, a gofynnaf iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnaf i chi roi gwybod i mi am y rhesymau dros beidio â'u cywiro.
7. Ceir crynodeb o'r prif gasgliadau o'm harchwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu isod ac fe'u cyflwynir yn fanylach yn yr adroddiad manwl:
   - aed i'r afael â risgiau cynllunio'r archwiliad mewn modd boddhaol;
   - nid yw datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol; ond,
   - cafwyd un camddatganiad nas cywirwyd; a
   - gellid gwella arferion cyfrifyddu'r Cyngor o ran datgeliadau pensiwn a'r ffordd yr ymdrinnir ag asedau sefydlog.

8. Fy mwriad yw cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig pan fydd y Cyngor wedi rhoi'r Llythyr Cynrychiolaeth a nodir yn Atodiad 1 i mi.

## Aed i'r afael â risgiau cynllunio'r archwiliad mewn modd boddhaol

9. Cyflwynodd fy strategaeth archwilio y risgiau a nodwyd ar gam cynllunio'r archwiliad. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r risgiau hyn a'r ffordd y'u datryswyd, ynghyd â'r risgiau sylweddol a nodwyd yn fy adolygiad o'r datganiadau ariannol drafft.

**Arddangosyn 1: Risgiau cyfrifon ariannol**

| Risgiau | Canfyddiadau |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| Gallai methu â chyflawni'r gwariant a gyllidebwyd a sicrhau arbedion a gynlluniwyd effeithio'n andwyol ar y sefyllfa ariannol ac arwain at ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. | Mae trefniadau rheolaeth gyllidebol effeithiol ar waith. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth roi ei strategaeth arbedion ar waith. |
| Mae Archwilio Mewnol yn elfen allweddol o'r amgylchedd rheoli ond efallai nad yw'n gwbl effeithiol. | Mae gan y Cyngor Wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio â safonau Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol, ac eithrio'r safon annibyniaeth. |
| Efallai nad oes gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn ar waith. | Roedd rheolaethau o fewn systemau ariannol pwysig yn gweithredu'n foddhaol yn ystod 2009-10. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | |
| Gallai gweithredu'r gofrestr asedau sefydlog newydd arwain at drafodion ariannol wedi'u camddatgan. | Fe addnabyddwyd newidiadau i asedau sefydlog a reserfau cyfalaf. Roedd gwerth net wedi'u datgan yn gywir. |
| Efallai nad yw rheolaethau TG systemau ariannol pwysig yn ddigon cadarn. | Nododd ein hadolygiad o reolaethau TG nifer o systemau ariannol rai meysydd lle y gellid atgyfnerthu'r rheolaethau. Fodd bynnag, nid ydynt yn ein hatal rhag dibynnu ar y gwerthoedd ariannol a gynhyrchir gan y systemau. |
| Ym mis Hydref 2009, nododd y Swyddfa Masnachu Teg fod prisio uchel bwriadol (cover pricing) yn digwydd yn helaeth mewn contractau adeiladu yn Lloegr. Efallai nad yw prosesau yn y Cyngor yn ddigon cadarn i liniaru'r risg hon. | Mae rheolaethau gwariant contract ar waith. |

| Risgiau | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | |
| Gallai paratoadau ar gyfer gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn llawn yn 2010-11 fod yn annigonol. | Cynnydd sylweddol o ran paratoi ar gyfer newidiadau 2010-11. |
| Gallai newidiadau i'r datganiadau ariannol i gydymffurfio â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2009 (SoRP) fod wedi'u cwblhau'n anghywir. | Lluniwyd y datganiadau ariannol yn unol â'r SoRP. |
| Gallai ffurflen cyfuno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y Cyngor, y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei chyhoeddi ar gyfer 2009-10, fod wedi'i chwblhau'n anghywir neu'n hwyr. | Bodlonwyd terfynau amser ar gyfer cyflwyno dogfennau, nid yw'r profion archwilio wedi'u cwblhau eto. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | |
| Risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Profwyd trafodion a datgeliadau cyfrifyddu a chytunwyd arnynt. |

## Nid yw datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol

10. Mae safonau archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i mi eich hysbysu o unrhyw fater a allai arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, yn enwedig os wyf yn nodi'r canlynol:
    - gwendidau perthnasol o ran eich rheolaethau mewnol;
    - materion eraill o ddiddordeb llywodraethu;
    - twyll a ddrwgdybir neu a ganfyddir; ac
    - anghysondebau o ran gwybodaeth ariannol;
11. Wrth archwilio'r datganiadau cyfrifyddu rwyf hefyd yn ystyried yr agweddau ansoddol ar y broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yn ogystal â chywirdeb y datganiadau.
12. Cyflwynaf adroddiad i chi ar yr holl gamddatganiadau nas cywirwyd, heblaw am fân gamddatganiadau amlwg, gan lunio adroddiad archwilydd sy'n gwneud sylwadau ar y canlynol:
    - a yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
    - pha un a yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth o drefniadau'r Cyngor.

13. Crynhoir fy nghanfyddiadau yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

| Meysydd safonau archwilio | Canfyddiadau |
|---|---|
| Rheolaethau mewnol | Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. |
| Llywodraethu | Nid oes unrhyw faterion o bwys i gyflwyno adroddiad arnynt |
| Materion eraill | Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad arnynt. |
| **Archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu** | **Canfyddiadau** |
| Agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu | Mae'r prosesau ar gyfer paratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn gadarn. Caiff y cyfrifon drafft eu paratoi yn unol â therfynau amser ac fe'u hategir gan bapurau gwaith digonol.<br>Mae gennyf bryderon am eich arferion cyfrifyddu mewn dau faes, a nodir yn fanylach isod.<br>Mae'r cyfrifon drafft yn cynnwys nifer resymol o fân wallau a gellid eu gwella drwy gynnal adolygiad ansawdd cyn eu cyhoeddi. |
| Camddatganiadau | Cafwyd un camddatganiad nas cywirwyd.<br>Paratowyd datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio diwygiedig, er y bu rhywfaint o anghysondeb o ran dehongli'r canllawiau diwygiedig ledled Cymru. Caiff hyn ei ddatrys er mwyn sicrhau cysondeb yn ystod 2010-11.<br>Ceir crynodeb o'r diwygiadau i'r datganiadau ariannol yn Atodiad 2. Effaith yr addasiadau ar sefyllfa net y Cyfrif Incwm a Gwariant a'r Fantolen yw £53,000. |
| Adroddiad archwilydd | Rwy'n bwriadu rhoi barn archwilio ddiamod. |

## Cafwyd un camddatganiad nas cywirwyd

14. Cyflwynaf adroddiad i chi ar yr holl gamddatganiadau nas cywirwyd heblaw am fân gamddatganiadau amlwg (diffinnir mân gamddatganiadau fel rhai sy'n hollol ddibwys, p'un ai'n unigol neu gyda'i gilydd, naill ai'n feintiol a/neu'n ansoddol). Ar sail fy methodoleg safonol, cyfrifwyd mai'r terfyn ariannol ar gyfer yr hyn a ystyriaf yn fân gamddatganiad yw £100,000.

15. Mae Safon Adrodd Ariannol 12 – Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn, yn ei gwneud yn ofynnol y dylid cydnabod darpariaeth pan fydd gan endid rwymedigaeth gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a lle y mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth.

16. Mae gan y Cyngor rwymedigaeth mewn perthynas â chostau capio ac ôl-ofal safle gwaredu gwastraff Cilgwyn. Amcangyfrifa'r Cyngor mai cost gychwynnol capio'r safle fydd £3.114 miliwn. Ar 31 Mawrth, roedd y Cyngor wedi gwario

£766,000 ar y gwaith sy'n ofynnol i gapio'r safle, gan adael balans o £2.348 miliwn. Yn ychwanegol at y costau hyn, amcangyfrifir y bydd y gwaith capio terfynol (yr amcangyfrifir y bydd yn cael ei gynnal yn 2024-25) yn costio £985,000 yn ychwanegol.

17. Mae'r Cyngor wedi neilltuo £800,000 fel darpariaeth rannol ar gyfer y costau hyn. Er mwyn cydymffurfio â FRS12, dylai'r Cyngor fod wedi cynyddu'r ddarpariaeth hyd at y swm llawn (y costau cychwynnol) er mwyn cydnabod y rhwymedigaeth yn briodol yn natganiadau ariannol 2009-10. Wedyn, byddwn yn disgwyl i ddarpariaeth bellach gael ei sefydlu dros amser i fodloni'r ymrwymiad pellach yn 2024-25.

18. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud hynny ond mae wedi neilltuo adnodd yn ei gronfeydd cyfalaf wrth gefn neilltuedig (£1.241 miliwn) a chyllidebau cyfalaf 2010-11 a 2011-12 (£1.107 miliwn).

19. Gofynnir i chi gywiro'r camddatganiad a darparu £1.548 miliwn ychwanegol (£2.348 miliwn llai'r £800,000 a ddarparwyd eisoes). Gellir ariannu £1.241 miliwn o'r arian hwn o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn neilltuedig a ddelir ar y fantolen. Ar hyn o bryd, mae'r rheolwyr wedi gwrthod cywiro'r camddatganiad hwn. Os nad ydych yn fodlon cywiro'r camddatganiad hwn, gofynnir i chi ysgrifennu ataf yn nodi'r rhesymau dros beidio â gwneud y cywiriad hwn.

## Gellid gwella arferion cyfrifyddu'r Cyngor o ran datgeliadau pensiwn a'r ffordd yr ymdrinnir ag asedau sefydlog

20. Mae gennyf ddau bryder ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu.

21. Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â datgeliadau pensiwn y Cyngor.

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod, ar ei fantolen, y rhwymedigaeth sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn budd diffiniedig. Mae'n cydnabod y rhwymedigaethau net a fydd yn deillio o'i gyfranogiad yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn y dyfodol, yn seiliedig ar strwythur buddiannau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- Fodd bynnag, nid yw'r symiau a gydnabyddir ar y fantolen yn cyfateb i'r prisiad actiwaraidd ar ddyddiad y fantolen. Paratowyd cysoniad ac fe'i datgelwyd yn Nodyn 27 i'r cyfrifon. Ceir gwahaniaeth o £2.151 miliwn ac mae'n cynrychioli effaith gronnol amrywiadau blynyddol yn y wybodaeth ariannol a ddarparwyd i'r actiwari rhwng y data amcangyfrifedig a ddarparwyd (ym mis Ionawr o unrhyw flwyddyn) a'r data gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn.
- Er ei bod yn rhesymol i wahaniaeth bach fodoli mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol dan sylw, byddwn yn disgwyl i'r Cyngor hysbysu'r actiwari am y gwahaniaethau hyn er mwyn iddo allu eu hystyried wrth baratoi ei brisiad blynyddol at ddibenion FRS17.
- Cytunodd swyddogion y byddant yn trafod y mater hwn gyda'r actiwari yn ystod y flwyddyn nesaf.

22. Mae'r ail fater yn ymwneud â'r ffordd yr ymdrinnir ag asedau sefydlog yn ystod y broses gyfrifyddu.

- Cofnodir ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn i'r asedau seilwaith ar y fantolen fel seilwaith heb roi ystyriaeth ffurfiol i ba un a yw'r ased yn weithredol ar ddyddiad y fantolen. Os nad yw'r ased yn weithredol ar ddyddiad y fantolen, dylid ei ddosbarthu fel ased sydd wrthi'n cael ei adeiladu a dim ond unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio y dylid ei drosglwyddo i'r categori seilwaith.
- Dylai'r Cyngor roi system ar waith i adolygu'n ffurfiol pryd y dechreuir defnyddio seilwaith. Bydd hyn yn sicrhau y caiff yr ased ei ddosbarthu'n briodol ar ddyddiad y fantolen ac yr ymdrinnir ag ef yn briodol at ddibenion dibrisio yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol.

## Atodiad 1

# Llythyr Cynrychiolaeth

Anthony Barrett
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

27 Medi 2010

Annwyl Mr Barrett,

# Sylwadau yn ymwneud â Datganiad Cyfrifon 2009-10

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'r archwiliad o ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 er mwyn mynegi barn o ran pa un a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2010 a chanlyniadau ei weithrediadau a'i lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU - Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2009 (y SoRP).

## Sylwadau cyffredinol

Adlewyrchwyd a chofnodwyd yr holl drafodion y mae'r Cyngor wedi eu cynnal yn briodol yn y cofnodion cyfrifyddu.

Nid oes unrhyw brosiectau cyllideb cyfun yn deillio o unrhyw gytundebau partneriaeth y cytunwyd arnynt o dan Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (Cymru) 2006, cyfranogion, mentrau ar y cyd na threfniadau ar y cyd heblaw am y rhai a ddatgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â phob amod a osodwyd gan sefydliadau perthnasol sy'n talu grantiau a gellir yn rhesymol ddisgwyl y symiau grant a gynhwysir yn y cyfrifon.

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â phob agwedd ar gytundebau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i addasu'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig neu ddatgelu'r manylion ynddynt.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys hepgoriadau.

Sicrhawyd bod pob llyfr cyfrifon a dogfen ategol a chofnodion pob cyfarfod y Cyngor ar gael i chi.

Nid oes gan y Cyngor gynlluniau na bwriadau a all newid yn berthnasol werth cario neu ddosbarthiad asedau a rhwymedigaethau a adlewyrchir yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r dulliau o fesur, gan gynnwys y rhagdybiaethau cysylltiedig, a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg yn briodol ac wedi eu cymhwyso'n gyson. Mae'r datgeliadau sy'n ymwneud â gwerthoedd teg yn gyflawn ac yn briodol.

Nid yw effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn berthnasol, boed hynny'n unigol neu ar y cyd, i'r datganiadau cyfrifyddu yn eu cyfanrwydd.

Ystyriwyd pob un o'r diwygiadau yng ngofynion y SoRP, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â chyfrifyddu ar gyfer y Fenter Cyllid Cyhoeddus a chynlluniau tebyg, a gwnaed y cofnodion priodol yn Natganiad Cyfrifon 2009/10.

## Asedau

### Cyffredinol

Roedd yr holl asedau a gynhwyswyd ar y fantolen yn bodoli ar ddyddiad y fantolen ac yn eiddo i'r Cyngor, ac roeddent yn rhydd o unrhyw hawlrwym, llyffethair neu arwystl, ac eithrio fel y datgelir yn y cyfrifon. Mae'r fantolen yn cynnwys pob ased diriaethol sy'n eiddo i'r Cyngor.

### Asedau sefydlog

Cyfalefir pob ased sydd dros y lefel deminimis. Cânt eu hailbrisio bob pum mlynedd drwy raglen dreigl. Hefyd, adolygwyd gwerth asedau eleni ar gyfer lleihad mewn gwerth yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd bresennol ac adlewyrchwyd unrhyw leihad mewn gwerth o'r fath yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny. Cyfrifir dibrisiad er mwyn lleihau swm llyfr net pob ased i'w werth gweddillol amcangyfrifedig erbyn diwedd tybiedig ei oes fuddiol yng ngweithrediadau'r Cyngor.

### Buddsoddiadau

Roedd yr holl fuddsoddiadau a gynhwyswyd ar y fantolen yn bodoli ar ddyddiad y fantolen ac yn eiddo i'r Cyngor, ac roeddent yn rhydd o unrhyw hawlrym, llyffethair neu arwystl, ac eithrio fel y datgelir yn y cyfrifon. Mae'r fantolen yn cynnwys pob buddsoddiad diriaethol sy'n eiddo i'r Cyngor. Adolygwyd buddsoddiadau'r Cyngor, gan gynnwys y rhai ym Manc Heritable (yng Ngwlad yr Iâ) ar gyfer lleihad neu newid mewn gwerth ac adlewyrchwyd yr addasiad (gwellhad mewn gwerth rhwng 31/03/2009 a 31/03/2010 yn achos Banc Heritable) yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny.

### Asedau cyfredol

O'u gwireddu yn ystod gweithrediadau arferol y Cyngor disgwylir i'r asedau cyfredol eraill ar y fantolen gynhyrchu o leiaf cymaint ag y datgenir ar eu cyfer. Gwnaed darpariaeth ddigonol yn erbyn pob swm sy'n ddyledus i'r Cyngor ac y gwyddys ei fod, neu y gellir disgwyl y bydd, yn anadenilladwy.

Ni cheir unrhyw drefniadau balans digolledu ffurfiol nac anffurfiol gydag unrhyw rai o'n cyfrifon arian parod na buddsoddi.

## Rhwymedigaethau

### Cyffredinol

Mae pob rhwymedigaeth wirioneddol a rhwymedigaeth wrth gefn wedi ei chofnodi a'i datgelu fel y bo'n briodol, yn ogystal â phob gwarant yr ydym wedi ei rhoi i drydydd partïon.

Nid oes ymgyfreitha yn yr arfaeth a all beri colled sylweddol i'r Cyngor, ac nad yw wedi ei ddatgelu yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, naill ai fel rhwymedigaethau cyfredol neu rwymedigaethau wrth gefn.

Mae pob rhwymedigaeth o dan brydlesi cyllidol neu gontractau hurbwrcas wedi ei datgelu yn y cyfrifon.

Ystyriwyd pob budd nas cyllidwyd wrth grynhoi ffigurau FRS 17 a gynhwyswyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

### Cilgwyn – FRS 12

Mae'r archwiliwr yn ystyried nad ydym wedi cydsynio efo gofynion FRS 12 mewn perthynas â safle gwaredu gwastraff Cilgwyn, ac felly bod hyn wedyn wedi arwain at "gamddatganiad" sydd angen i mi ei egluro.

Fe ddaeth gweithgareddau ar safle Cilgwyn, a weithredwyd yn flaenorol gan Gwmni Gwastraff Môn Arfon, i ben yn Rhagfyr 2008, gyda'r angen wedyn am waith capio ac adfer, ac sydd mewn dau brif rhan, sef, y rhan cychwynol sydd yn y broses o gael ei wneud rwan, a'r capio terfynol sydd nawr wedi ei raglennu ar gyfer 2026-27 .

Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu adnoddau cyllidol yn ei rhaglen gwariant cyfalaf i ariannu'r gwaith capio cychwynol, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 2006/07 - | £ | 100,000 |
| 2007/08 - | £ | 450,000 |
| 2008/09 - | £ | 958,000 |
| 2009/10 - | £ | 500,000 |
| 2010/11 - | £ | 917,000 |
| 2011/12 - | £ | 190,000 |
| Cyfanswm | £3,115,000 | |

Mae'n bosib na fydd y gwaith ar y rhan capio cychwynol yn cwblhau tan 2012-13.

Tydi'r gwaith ar y capio terfynol nawr ddim wedi ei raglennu tan 2026/27 gyda chost, yr amcangyfrifir yn gyfredol i fod oddeutu £985,000. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth o £800,000 tuag at y gwaith capio terfynol sydd ei angen ar safle Cilgwyn, ac fe ystyrir hyn i fod yn sefyllfa resymol ar yr amser yma.

### Canlyniadau

Ac eithrio fel y datgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ni fu i drafodion o fath nas cynhelir fel arfer gan y Cyngor, nac amgylchiadau eithriadol neu anghylchol, effeithio'n berthnasol ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn.

### Rheolaeth fewnol

Cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod gwallau. Ni fu:

- afreoleidd-dra yn ymwneud â rheolwyr y mae ganddynt rolau pwysig yn y system rheolaeth cyfrifyddu fewnol;
- afreoleidd-dra yn ymwneud â chyflogeion eraill a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol; a
- gohebiaeth gan asiantaethau rheoliadol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio neu ddiffygion o ran arferion cyflwyno adroddiadau ariannol a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

## Digwyddiadau ôl-fantolen

Ac eithrio fel y datgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ni fu newidiadau perthnasol ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar rwymedigaethau ac ymrwymiadau, ac ni fu digwyddiadau na thrafodion sydd, er eu bod wedi eu heithrio'n briodol o'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, yn ddigon pwysig fel y dylent fod wedi cael eu dwyn i sylw'r archwilydd.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am gyflwyno'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn deg yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol priodol.

Cydnabyddwn ein cydgyfrifoldeb am baratoi'r Datganiad Cyfrifon, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 27/09/2010.

Rydym wedi datgelu i chi bob achos hysbys neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid bod wedi ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid oes unrhyw drafodion perthnasol eraill â phartïon cysylltiedig (yn ôl diffiniad Safon Adrodd Ariannol 8 a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir), heblaw am y rhai a gofnodwyd ac a ddatgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll, ac rydym wedi datgelu canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.

Rydym wedi datgelu wrthych yr hyn a wyddom am bob honiad o dwyll, neu dwyll a ddrwgdybir, yn effeithio ar ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig y Cyngor y cafodd y Cyngor wybod amdanynt gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.

Rydym wedi datgelu wrthych yr hyn a wyddom am dwyll neu dwyll a amheuir sy'n effeithio ar yr elusen yn ymwneud â'r canlynol:

- y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
- eraill lle y gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Cadarnhawn, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, y gwneir y sylwadau uchod ar sail ymholiadau gyda rheolwyr ac aelodau o staff sydd â gwybodaeth a phrofiad perthnasol (a, lle bo hynny'n briodol, drwy arolygu dogfennaeth ategol) sy'n ddigon i'n bodloni y gallwn gyflwyno'n briodol bob un o'r sylwadau uchod i chi.

**DAFYDD L EDWARDS**
**PENNAETH CYLLID**

Dyddiad

**CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS**
**CADEIRYDD PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad

Atodiad 2

## Crynodeb o'r cywiriadau i'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig drafft y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Polisi Cyfrifyddu 5 – Derbyniadau Cyfalaf<br>Mewnosodwch naratif i egluro'r newid i'r polisi cyfrifyddu. | Er mwyn cydymffurfio â gofynion datgelu SoRP. |
| Nodyn 6 – Taliadau i Gyflogeion<br>Ychwanegwyd naratif a disgrifiadau ychwanegol er mwyn egluro'r datgeliadau. | Er mwyn sicrhau eglurder i'r sawl sy'n darllen. |
| Nodyn 13 – Cyfrif Rheoli Adeiladau<br>Cynyddu'r gwariant o £445,770 i £529,902<br>Lleihau'r gwarged o £50,144 i golled o £33,988. | Er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol wirioneddol yn gywir ar y cyfrif rheoli adeiladau. |
| Nodyn 14 – Ffïoedd Archwilio<br>Lleihau'r Ffïoedd am geisiadau grant o £109,935 i £99,700. | Er mwyn cywiro gwariant a gamgodiwyd. |
| Nodyn 15 – Asedau Sefydlog<br>Ailddatgan dadansoddiad  Tai Cyngor a Tir ac Adeiladau i adlewyrchu y gwir symudiadau yn y flwyddyn yn deillio o ailbrisio. | I gywiro trafodion wedi camddatgan |
| Nodyn 17 – Asedau Net a Ddefnyddiwyd<br>Lleihau Cronfa'r Cyngor o £24,514,000 i<br>-£142,500,000<br>Cynyddu'r Cyfrif Refeniw Tai o £1,964,000 i £169,031,000. | Er mwyn adlewyrchu'n gywir yr asedau net a ddefnyddiwyd gan Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn y drefn honno. |
| Nodyn 19 – Buddsoddiadau<br>Lleihau Hirdymor – Marchnadoedd Ariannol £17,000<br>Cynyddu Byrdymor – Marchnadoedd Ariannol £17,000. | Er mwyn cywiro'r dosbarthiad rhwng buddsoddiadau hirdymor a byrdymor. |
| Nodyn 21 – Dyledwyr<br>Yn ddyledus o fewn blwyddyn:<br>Lleihau Dyledwyr amrywiol eraill £1,135,000<br>Yn ddyledus ar ôl blwyddyn:<br>Cynyddu Eraill £1,135,000. | Er mwyn ailddosbarthu dyledwyr lle y mae tâl cyfreithiol yn bodoli yn erbyn eiddo i ddyledwyr sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn. |
| Nodyn 21 – Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:<br>Lleihau Morgeiswyr £132,000<br>Nodyn 22 – Credydwyr<br>Derbyniadau eraill ymlaen llaw £132,000. | Er mwyn cywiro symiau mewn perthynas â morgeisi y nodwyd eu swm gros yn anghywir. |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Nodyn 22 – Credydwyr<br>Lleihau credydwyr amrywiol eraill £53,000<br>Cyfrif Incwm a Gwariant<br>Cynyddu Incwm Llog a Buddsoddiadau £53,000. | Er mwyn cywiro'r dyraniad anghywir o'r gwelliant o ran y lleihad mewn gwerth (Heritable) rhwng Cronfa'r Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. |
| Nodyn 23 – Grantiau Cyfalaf nas Cymhwysswyd<br>Ychwanegwyd tabl i ddangos dadansoddiad o'r symudiad ar y cyfrif grantiau cyfalaf nas cymhwysswyd yn ystod y flwyddyn. | Er mwyn darparu gwybodaeth fanwl i'r sawl sy'n darllen. |
| Nodyn 24 – Benthyciadau<br>Ychwanegwyd gwerth teg Benthyciad Banc Barclays at y tabl. | Hepgorwyd y ffigur yn y cyfrifon drafft. |
| Nodyn 27 – Costau Pensiwn<br>Ychwanegwyd tabl i ddangos y cysoniad rhwng y diffyg actiwaraidd a'r rhwymedigaeth bensiwn ar y fantolen. | Er mwyn cydymffurfio â gofynion datgelu SORP. |
| Nodyn 30 - Cyfrif Addasiadau Cyfalaf<br>Cynyddu Dibrisiant ac Amhariad asedau sefydlog £7.097 miliwn<br>Nodyn 33 – Reserf Ailbrisio<br>Lleihau Amhariad £6.750 miliwn<br>Lleihau Gwerthiant £0.347 miliwn. | I gywiro trafodion wedi camddatgan. |
| Nodyn 38 – Rhwymedigaethau Wrth Gefn<br>Ychwanegwyd naratif at y nodyn i egluro ymhellach natur y rhwymedigaethau wrth gefn. | Er mwyn cydymffurfio â gofynion datgelu SORP. |
| Nodyn 42 – Digwyddiadau Ôl-Fantolen<br>Ychwanegwyd y nodyn er mwyn hysbysu'r sawl sy'n darllen am dri digwyddiad ar ôl dyddiad y fantolen a fydd yn effeithio ar y Cyngor. | Er mwyn darparu gwybodaeth fanwl i'r sawl sy'n darllen. |
| Y Cyfrif Refeniw Tai<br>Gwnaed diwygiadau i ddatganiad y Cyfrif Refeniw Tai er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r Cyfrif Incwm a Gwariant. | Er mwyn sicrhau bod y Cyfrif Refeniw Tai yn cyfateb i'r datganiadau sylfaenol. |
| Y Cyfrif Refeniw Tai<br>Cynyddu Llog ar Fuddsoddiadau £29,000<br>Nodyn 5 – Lleihad mewn Gwerth Buddsoddiad<br>diwygiwyd y naratif i adlewyrchu'r cywiriad. | Roedd y lleihad mewn gwerth wedi'i godi'n amhriodol ar y Cyfrif Refeniw Tai. |
| Nodyn 7 y Cyfrif Refeniw Tai - Dibrisiant<br>Lleihau Anheddau o £6,608,000 i £6,307,000<br>Cynyddu Arall o £49,000 i £350,000. | Er mwyn sicrhau bod nodyn y Cyfrif Refeniw Tai yn cyfateb i Nodyn 15 ar Asedau sefydlog. |
| Amrywiol ddiwygiadau i eiriad ac er mwyn cywiro gwallau talgrynnu. | Er mwyn cywiro mân wallau. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk